Kate Young

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Fi yw Cyfarwyddwr y Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, y rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer rhiant-ofalwyr pobl ag anableddau dysgu sy'n ymgysylltu â mwy na 4,000 o deuluoedd ledled Cymru.

Cyd-gadeiriais y grŵp arbenigol ar 'y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol' ar gyfer Cymru, rwy'n Cyd-gadeirio'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Anableddau Dysgu, yn Is-gadeirydd Cynghrair Gofalwyr Cymru ac wedi cael y fraint o gael fy enwebu gan fy nghymheiriaid i fod yn gynrychiolwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae gennyf ddealltwriaeth gadarn o'r weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd.

Rwy'n gwbl ymrwymedig i'r trydydd sector, pŵer ymgysylltu â'r gymuned, ac yn credu bod ein natur unigryw ac amrywiol yn rym go iawn ar gyfer arloesi. Rwy'n gefnogwr brwd o hawliau a dewis personol. Fel chwaer-ofalydd i'm mrawd sy'n byw gydag anableddau dysgu difrifol ac awtistiaeth, mae gennyf ddealltwriaeth bersonol o bwysigrwydd y model anableddau cymdeithasol a pham mae angen i faterion anghydraddoldeb fod yn flaenoriaeth.

Pe bawn i'n cael fy ethol, byddem yn defnyddio'r rhwydweithiau, y profiad a'r ymrwymiad sydd gennyf i gynorthwyo CGGC i hyrwyddo'r sector yng Nghymru a herio'r rhwystrau rydym yn eu hwynebu.